# Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau – Cyngor Sir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3145A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau sylweddol yn ei drefniadau ar gyfer rheoli ei asedau ac mae'n edrych ar opsiynau i wneud gwelliannau. Wrth wneud hynny mae angen iddo ystyried sut y gall ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drefnu ei waith yn y maes hwn.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau sylweddol yn ei drefniadau ar gyfer rheoli ei asedau ac mae'n edrych ar opsiynau i wneud gwelliannau. Wrth wneud hynny mae angen iddo ystyried sut y gall ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drefnu ei waith yn y maes hwn 7

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo weledigaeth gorfforaethol eglur ar gyfer ei asedau na chynllun rheoli asedau cyfoes ond mae yn y broses o ddatblygu'r rhain 7

Mae'r diffyg fframwaith corfforaethol cryf i reoli asedau'r Cyngor a diffygion yn y data ar asedau y mae'n ei ddal yn rhwystr i'w ddealltwriaeth gorfforaethol am ei asedau a'i allu i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer dros y tymor byr a hwy 8

Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i fonitro'i berfformiad o ran rheoli asedau ac mae wedi bod yn araf i weithredu ar argymhellion a gododd o adolygiadau mewnol blaenorol, ond yn awr mae wrthi'n ystyried sut i gryfhau ei drefniadau yn y maes hwn 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gyda ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'r defnydd o'i asedau'n strategol, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Fe gyflawnom ni'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i fwrw golwg ar y modd y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Rydym wedi cynnal y prosiect hwn ym mhob cyngor fel rhan o'n cynlluniau archwilio yn 2021 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

5 O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. I weithredu felly, rhaid i'r Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. Mae canllawiau statudol ar y Ddeddf yn nodi saith gweithgaredd sefydliadol craidd y mae'n hanfodol bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei chymhwyso iddynt. Mae asedau'n un o'r gweithgareddau sefydliadol craidd hynny.

6 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac

- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2022.

8 Mae gan y Cyngor ystod eang o asedau adeiladau gan gynnwys: adeiladau gweinyddol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ysgolion, canolfannau ieuenctid, canolfannau cymunedol, maes awyr, ac eiddo masnachol, gan gynnwys Canolfan Siopa Glan yr Afon. Tua £416 miliwn yw gwerth eiddo'r Cyngor, heb gynnwys tai ac asedau seilwaith.

## Yr hyn a ganfuom

9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n helpu'r Cyngor mewn modd effeithiol i gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?

10 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau sylweddol yn ei drefniadau ar gyfer rheoli ei asedau ac mae'n edrych ar opsiynau i wneud gwelliannau. Wrth wneud hynny mae angen iddo ystyried sut y gall ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drefnu ei waith yn y maes hwn.

11 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo weledigaeth gorfforaethol eglur ar gyfer ei asedau na chynllun rheoli asedau cyfoes ond mae yn y broses o ddatblygu'r rhain;
- mae'r diffyg fframwaith corfforaethol cryf i reoli asedau'r Cyngor a diffygion yn y data ar asedau y mae'n ei ddal yn rhwystr i'w ddealltwriaeth gorfforaethol am ei asedau a'i allu i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer dros y tymor byr a hwy; ac
- ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i fonitro'i berfformiad o ran rheoli asedau ac mae wedi bod yn araf i weithredu ar argymhellion a gododd o adolygiadau mewnol blaenorol, ond yn awr mae wrthi'n ystyried sut i gryfhau ei drefniadau yn y maes hwn.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
|---|
| **Cynllunio Gwaith Rheoli Asedau**<br>A1 Dylai'r Cyngor ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy[1] i wella'r ffordd y mae'n cynllunio, yn cyflawni, ac yn monitro gwaith i reoli ei asedau. |
| **Cyflawni Gwaith Rheoli Asedau**<br>A2 Mae angen i'r Cyngor adolygu ei drefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli asedau i'w sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei drefniadau rheoli asedau.<br>A3 Wrth adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei asedau, mae angen i'r Cyngor sicrhau y darperir digon o adnoddau ar gyfer ei fodel cyflawni newydd.<br>A4 Mae angen i'r Cyngor wella'r data y mae'n ei ddal ar ei asedau, gan sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol, yn gynhwysfawr, ac yn hygyrch i'r rhai y mae ei hangen arnynt, a bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i oleuo'i brosesau penderfynu. |
| **Rheoli perfformiad**<br>A5 Mae angen i'r Cyngor gryfhau trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer ei asedau trwy:<br>• ddatblygu set o fesurau perfformiad a mesurau canlyniadau sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei asedau, a monitro'r mesurau hyn ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau i bwyllgor(au) trosolwg a chraffu; a<br>• meincnodi perfformiad o ran rheoli asedau gyda sefydliadau eraill. |

[1] Caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau sylweddol yn ei drefniadau ar gyfer rheoli ei asedau ac mae'n edrych ar opsiynau i wneud gwelliannau. Wrth wneud hynny mae angen iddo ystyried sut y gall ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drefnu ei waith yn y maes hwn

### Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo weledigaeth gorfforaethol eglur ar gyfer ei asedau na chynllun rheoli asedau cyfoes ond mae yn y broses o ddatblygu'r rhain

12 Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi adnabod unrhyw newidiadau pwysig yn y ffordd y bydd yn defnyddio'r adeiladau a gadwyd ganddo yn y dyfodol o ganlyniad yn uniongyrchol i bandemig COVID-19. Cyn y pandemig, roedd y Cyngor wedi bod yn creu amgylchedd gweithio ystwyth ac yn buddsoddi yn ei dechnoleg gwybodaeth. Roedd hyn yn golygu, pan gaeodd swyddfeydd, bod gan staff yr offer a'r seilwaith TG angenrheidiol i'w galluogi i weithio o bell. Roedd y Cyngor eisoes yn cynnal rhaglen rhesymoli swyddfeydd fel rhan o'i agenda drawsnewid.

13 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yn ddiweddar nad oes ganddo weledigaeth gorfforaethol eglur ar gyfer ei holl asedau na chynllun rheoli asedau cyfoes a chan hynny mae wedi dod â chymorth allanol i mewn i'w helpu i'w datblygu. Mae'r Cyngor yn bwriadu cytuno ar gynllun rheoli asedau diwygiedig gyda Chynghorwyr yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

14 Mae cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran sut y mae'n mynd ati i gynllunio ar gyfer ei asedau ac i'w rheoli. O ran graddfeydd amser mae rhai meysydd gwasanaeth yn rhoi pwyslais ar y tymor hwy wrth feddwl am eu hasedau, e.e. ysgolion, ond ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn edrych yn systematig ar y risgiau a'r cyfleoedd mewn perthynas â sut y mae'n cynllunio ac yn defnyddio'i asedau ar y cyd dros y tymor byr a hwy.

15 Nid yw'r Cyngor yn dangos ar lefel gorfforaethol ei fod wrthi'n ystyried sut y gall ddefnyddio'i asedau i helpu i gyfrannu at gyflawni ei amcanion llesiant ei hun neu amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

## Mae'r diffyg fframwaith corfforaethol cryf i reoli asedau'r Cyngor a diffygion yn y data ar asedau y mae'n ei ddal yn rhwystr i'w ddealltwriaeth gorfforaethol am ei asedau a'i allu i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer dros y tymor byr a hwy

16 Mae trefniadau rheoli'r Cyngor ar gyfer ei asedau a'r wybodaeth sydd ganddo am ei asedau wedi'u gwasgaru drwy amryw wasanaethau ar draws y sefydliad. Yn niffyg goruchwyliaeth gorfforaethol gref, mae hyn yn rhwystr i ddealltwriaeth sefydliadol am ei asedau ac i gynllunio ar eu cyfer dros y tymor byr a hwy. Ceir Grŵp Rheoli Asedau Strategol corfforaethol (a fynychir gan swyddogion ac Aelodau). Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cryfhau ei drefniadau cyfredol ar gyfer rheoli asedau ac mae wedi dod ag ymgynghorwyr allanol i mewn i'w gefnogi yn y gwaith yma.

17 Mae data arolygon o gyflwr stoc y Cyngor yn anghyflawn ac wedi dyddio (mae'r data ar rai adeiladau dros ddeg oed ac nid oes data o gwbl ar gyflwr rhai adeiladau eraill). Ymddengys fod diffyg capasiti yn y tîm arolygon i wneud y gwaith hwn, er bod y Cyngor wedi darparu peth cyllid ychwanegol ar ei gyfer yn 2021-22 i'w alluogi i gynnal arolygon ychwanegol o gyflwr adeiladau. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor raglen strategol i gynnal arolygon o gyflwr adeiladau ac mae'r tîm arolygon yn gweithio mewn modd ad hoc mewn ymateb i geisiadau. Nid yw'r Cyngor wedi nodi dull strategol corfforaethol ar gyfer buddsoddi mewn cynnal a chadw ei asedau, ac nid yw ei dîm cynnal a chadw'n rhan o benderfyniadau am waredu asedau.

18 Caiff gwybodaeth am eiddo ei dal gan wahanol adrannau yn y Cyngor ar nifer o systemau. Nid oes un system ganolog, felly mae'n anodd gweld sut y gall y Cyngor fod â dealltwriaeth gorfforaethol am y sefyllfa gyfredol o ran ei asedau a fydd yn ei alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am gynllunio ar gyfer ei asedau yn y tymor byr a hwy. Ceir risg hefyd, am bod gwybodaeth yn cael ei dal ar wahân ac yn peidio â chael ei rhannu'n effeithiol, y bydd y Cyngor yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar adeiladau sydd wedi'u clustnodi i gael eu gwaredu.

19 Mae gan y Cyngor rai enghreifftiau o gydweithio gyda phartneriaid ar ei asedau ac mae wedi cryfhau hyn trwy lwyddo gyda dau gynnig 'codi'r gwastad' am gyllid gan Lywodraeth y DU, £17.7 miliwn a ddyfarnwyd ar gyfer adfywio economaidd yn Hwlffordd a £4.1 miliwn ar gyfer prosiect hyb cymunedol a gofal cymdeithasol ail gam yng Nghei'r De.

20 Mae'r Cyngor wedi cwblhau rhai prosesau i drosglwyddo asedau cymunedol (lle mae Cynghorau Tref a Chymuned neu fudiadau eraill yn rheoli ac yn cynnal a chadw asedau'r Cyngor, fel arfer dan brydlesi hir) ond mae arno eisiau gwneud mwy o hyn a hynny'n gyflymach. Mae gan y Cyngor oddeutu 50 o brosesau i drosglwyddo asedau cymunedol sydd wrthi'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ond mae'r ffaith mai adnoddau cyfyngedig sydd gan y Cyngor yn effeithio ar ei allu i gwblhau'r rhain.

21 Mae'r Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor 2022-25 yn amlygu materion o ran capasiti yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod y Gwasanaeth Eiddo wedi mynd o dîm o 26.5 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (CagALl) yn 2014-15 i dîm o 12.1 o gyflogeion CagALl yn 2021-22. Roedd nifer o bobl y gwnaethom gyfweld â hwy'n teimlo nad oes gan y gwasanaeth yr adnoddau i wneud y gwaith sy'n ofynnol.

22 Hyd yma, cyfyngedig fu'r ymgysylltu neu ymgynghori corfforaethol â'r cyhoedd am ddyfodol asedau'r Cyngor, er bod meysydd gwasanaeth wedi ymgynghori ynghylch materion penodol, e.e. cau ysgolion a newidiadau arfaethedig i ganolfannau dydd.

23 Fe gyflwynodd y Cyngor broses asesu effaith integredig newydd ym mis Medi 2021. Dylai'r broses hon helpu'r Cyngor i gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod, trwy ei waith sicrwydd ei hun, bod angen mwy o gysondeb o ran y modd y defnyddir yr offeryn asesu effaith integredig hwn i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau dan y ddeddfwriaeth berthnasol y mae a wnelo'r asesiad effaith â hi.

## Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i fonitro'i berfformiad o ran rheoli asedau ac mae wedi bod yn araf i weithredu ar argymhellion a gododd o adolygiadau mewnol blaenorol, ond yn awr mae wrthi'n ystyried sut i gryfhau ei drefniadau yn y maes hwn

24 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw wedi bod yn monitro'i ddull o reoli ei asedau'n effeithiol. Mae'r dangosyddion perfformiad yr adroddir arnynt yn gorfforaethol yn gyfyngedig iawn a cheir pryderon hysbys ynghylch ansawdd a digonolrwydd y data a ddelir ar asedau. Rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol (Mai 2021) ar systemau rheoli asedau a phrisiadau o asedau sgôr sicrwydd cyfyngedig[2] yn y maes hwn.

25 Cyfyngedig yw'r meincnodi gan y Cyngor yn erbyn sefydliadau eraill lle mae rheoli asedau yn y cwestiwn. Gall defnyddio data meincnodi ddarparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol cynghorau a gall adnabod cyfleoedd ar gyfer dysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

26 Mae'r Cyngor wedi bod yn araf i weithredu'n effeithiol ar argymhellion a ddeilliodd o adolygiadau mewnol cynharach o'r swyddogaeth rheoli asedau, ond ar hyn o bryd mae'n edrych ar opsiynau o ran sut y mae'n rheoli asedau wrth edrych tua'r dyfodol ac yn defnyddio adnoddau allanol i gefnogi'r gwaith hwn.

[2] Diffiniad y Cyngor o sgôr sicrwydd cyfyngedig yw: 'Mae gwendidau yn nigonolrwydd a/neu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a rheolaeth ariannol sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar allu'r gwasanaeth i gyflawni ei amcanion ac a allai gael effaith sylweddol ar gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor'.'

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.